Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

## 2024 Rhif 1337 (Cy. 226) (C. 81)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# CYRFF CYHOEDDUS, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym, ar 1 Ionawr 2025, y darpariaethau a bennir yn yr erthygl honno.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym, ar 1 Ebrill 2025, y darpariaethau a bennir yn yr erthygl honno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1337 (Cy. 226) (C. 81)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# CYRFF CYHOEDDUS, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2024

*Gwnaed* *13 Rhagfyr 2024*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 72(4) a (6) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2024.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2025**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ionawr 2025—

(a) adran 1 (Bwrdd Rheoli Etholiadol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru);

(b) adran 2 a Rhan 1 o Atodlen 1 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol);

(c) adran 26 (platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig);

(d) adran 28 (cynlluniau cymorth ariannol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig);

(**1**) 2024 dsc 5.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(e) adran 29 (personau a eithrir);

(f) adran 31 (dehongli Pennod 4 o Ran 1);

(g) adran 32 (gwariant tybiannol: ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol);

(h) adran 33 (gwariant tybiannol a gwariant gan drydydd parti: etholiadau Senedd Cymru);

(i) adran 34 (codau ymarfer ar dreuliau);

(j) adran 35 (personau awdurdodedig nad yw'n ofynnol iddynt dalu drwy asiant etholiad);

(k) adran 36 (cyfyngu ar ba drydydd partïon a gaiff fynd i wariant a reolir);

(l) adran 37 (trydydd partïon sy'n gallu rhoi hysbysiad);

(m) adran 38 (cod ymarfer ar reolaethau sy'n ymwneud â thrydydd partïon);

(n) adran 39 a Rhan 3 o Atodlen 1 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol);

(o) adran 67 (Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru: pwyllgor llywodraethu ac archwilio);

(p) adran 68 (Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru: pŵer i godi tâl).

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2025**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2025—

(a) adran 27 (gwasanaethau i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig);

(b) adran 56 (diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol);

(c) adran 57 (swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol);

(d) adran 58 (trosglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwyddau);

(e) adran 59 a Rhan 4 o Atodlen 1 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol);

(f) adran 60 (arbedion).

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
13 Rhagfyr 2024